# CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan, LL330AB**

**Maer Cyng. Nia Jones Dirprwy Faer Cyng. Sharne-Marie Bellis**

**Nos Fercher, Gorffennaf yr 2il, 2025**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Microsoft Teams**

**AGENDA**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiad o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mehefin yr 11eg, 2025, a'r rhestr weithredu gyfredol (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad Archwiliad Mewnol, Adolygiad o'r Cynllun Hyfforddiant a chyfrifon 2024/25 yn barod i'w cyflwyno i archwiliwr allanol Archwilio Cymru.
7. Derbyn gwybodaeth bellach am ddiogelwch yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd a chymeradwyo cynlluniau'r dyfodol ar gyfer y safle
8. Derbyn gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a dwyn i ystyriaeth datganiad
9. Cytuno ar Lwfansau'r Cyngor Tref ar gyfer 2025/26 a'r trefniadau ar gyfer taliadau
10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gwaith i atgyweirio cuddfannau Morfa Madryn
11. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Cyllid a Chysoniad Mehefin
12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Gorffennaf yr 2il, 2025

| Taliadau i'w cyflwyno |
|---|
| 1. **Gwariant Staff Misol ar gyfer Mehefin £5000** |
| 2. **Cyfieithiadau Menter Iaith** |
| 3. **Worldcare sgip cymunedol 025541 £258.00** |
| 4. **Lwfansau'r Cynghorwyr (£156 x 12) / Lwfansau'r Maer a'r Dirprwy Faer £600 / £300** |
| 5. **Trydan yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd Ebrill £43.09 Mai £44.25** |
| 6. **Adfer mainc gwylio G Roberts (Ardal Gemau Aml-ddefnydd) £255.00** |
| 7. **Bonws Clerc y Dref ar gyfer gwaith archwilio posiect allanol £406.00 (wedi'i gyfrifo cyn didyniadau)** |
| 8. **Achub Bywyd yn y Môr Llanfairfechan grant a 137 £1000** |
| 9. **Cyfraniad tuag at Wasanaeth Llyfrgell CBS Conwy £3000** |
| 10. **JDH Business Archwiliad Mewnol 2024/25 £544.40** |
| 11. **Archwilio Cymru Archwiliad Allanol 2022/23 ffioedd archwilio £655.00** |
| 12. **Classroom Capers (stamp inc) £16.44 (taliad ôl-ddyddiedig)** |
| 13. **Amazon gweddill £4.15 (taliad ôl-ddyddiedig)** |
| 14. **Hyfforddiant sgiliau Cadeirio y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis 9649 £42.00 (taliad ôl-ddyddiedig)** |
| 15. **Dr Zigs pecyn mawr (Lwfans y Dirprwy Faer 204) £45.98 (taliad ôl-ddyddiedig)** |
| 16. **EPC Forestry Toriad Hawliau Tramwy Cyhoeddus Mai £850 (taliad ôl-ddyddiedig)** |

13. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:

0/52611 Annedd a gwaith safle cysylltiedig arfaethedig gweithwyr fferm. Tyddyn Drain, Ffordd Mount

14. Derbyn gohebiaeth
15. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau

1. Grŵp Diogelwch Cymunedol – cau asiantaeth gefnffyrdd yr A55

16. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

**Nos Fercher, Gorffennaf yr 2il, 2025**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7YH Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennole: Cadeirydd: Maer Nia Jones; Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Cyng. Charlotte Davies; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Andrew Hinchliff BEM (ar-lein); Cyng. Chris Jones; Cyng. Preben Vangberg. Clerc y Dref: Jayne Neal; Dirprwy Glerc y Dref Callum Morrison**

**1. Croesawodd y Maer Nia Jones bawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol**

**Cytunwyd i recordio'r cyfarfod at ddibenion llunio cofnodion**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Cyng. Penny Andow (Cynghorydd Tref a Sir); Cyng. Leena Farhat; Cyng. Christine Roberts**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Eitem 13 Datgelodd y Cyng. Chris Jones a'r Cyng. Nia Jones ddiddordeb personol. Derbyniwyd nad oedd hyn yn rhagfarnus ond os byddai'r drafodaeth yn datblygu bydd y Cynghorwyr yn gadael yr ystafell**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Roedd aelod o'r cyhoedd yn y siambr, ond ni chodwyd unrhyw gwestiynau y tro hwn**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mehefin yr 11eg a'r rhestr weithredu gyfredol (DLlL1972 Atodlen 12) Ni chyflwynwyd rhestr Weithredu yn sgil pwysau gwaith paratoi'r archwiliad allanol. Nodwyd bod y Cofnodion wedi'u darllen.**

**Sesiwn Plismona Byr Cynhaliwyd ar Fehefin y 18fed ac roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben.**

**Digwyddiadau Cestyll Tywod a Phicnic Tedi Bêrs Awst y 3ydd Llwyddodd y Maer i ennill cyfraniadau ar gyfer tair gwobr sylweddol ar gyfer y Gystadleuaeth Cestyll Tywod gan fusnesau lleol: Teulu o 4 i Fferm Manorafon; Tocyn i Deulu o 5 i fwrw golwg ar atyniadau dinas Llandudno (alpine coaches); 2 docyn ar gyfer Cinderella (Venue Cymru). Mae gweithgareddau di-ri wedi'u trefnu ac mae cynlluniau tywydd gwlyb ar waith os oes angen.**

**Mae angen gwirfoddolwyr ar gyfer y digwyddiad hwn – cysylltwch gyda Dirprwy Glerc y Dref. Caiff gwahoddiadau eu hanfon at urddasolion o Gynghorau Tref eraill oherwydd y bydd yn ddigwyddiad dinesig y Maer.**

**Diwrnod teulu Pendalar dydd Mercher, Gorffennaf yr 16eg – Mae bob math o weithgareddau hwyl wedi'u trefnu yn y parc a bydd y Dirprwy Faer yn ariannu rhywfaint o hufen iâ am ddim i blant sy'n bresennol. Yn y bore fe fydd sgip cymunedol a digwyddiad codi sbwriel. Mae angen gwirfoddolwyr ar gyfer y digwyddiad hwn – cysylltwch gyda Dirprwy Glerc y Dref.**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**6. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad Archwilio Mewnol, Adolygiad o'r Cynllun Hyfforddiant a chyfrifon 2024/25 yn barod i'w cyflwyno i archwiliwr allanol Archwilio Cymru.**

**Roedd yr holl wybodaeth wedi'i dosbarthu'n flaenorol a nodwyd ei bod wedi'i darllen. Bu i'r archwiliwr mewnol grybwyll tri phwynt. Roedd pwyntiau 1 a 2 yn gyfrifiadau archwilio sydd wedi'u diweddaru a'u cytuno bellach. Roedd pwynt 3 yn cwestiynu'r penderfyniadau ynghylch y prosiect cyfalaf yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd. Cafodd hyn ei gwestlynu oherwydd nad oedd yr archwiliwr mewnol wedi derbyn yr wybodaeth lawn. Cafodd adroddiad llawn ei rannu ar y prosiect gyda'r holl wybodaeth ar gaffael a rheoli. Mae'r Clerc bellach yn hyderus y bydd yr archwiliwr allanol yn ei dderbyn. Mae'r gweddill diwedd y flwyddyn yr un fath bron â'r llynedd sy'n dangos fod y cynllun cyllideb wedi goroesi'n dda o dan yr amgylchiadau costau ychwanegol ym mlwyddyn 2024/25.**

**Mae dogfen cysoniad ac amrywiad Archwilio Cymru yn dangos gwariant eleni o gymharu â'r gwariant yn y flwyddyn flaenorol. Os yw'r amrywiannau'n 15% yn wahanol, mae'n rhaid rhoi cyfiawnhad. Mae tair taflen cyfiawnhau wedi'u paratoi, ac mae'r rhain yn sgil y swm sylweddol o gyllid allanol sydd wedi'i dderbyn. Dydy arwyneb yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd heb ei restru fel ased. Dyma Themâu Llywodraethu Archwilio Cymru ar gyfer 2024/25:**

- **Prosiectau cyfalaf – dylai'r adroddiad Ardal Gemau Aml-ddefnydd sydd wedi'i lunio ymdrin â hyn.**
- **Hyfforddiant Aelodau a Swyddogion – mae rhestr o hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau, ac adolygiad o'r cynllun hyfforddiant wedi'i baratoi i fodloni'r gofyniad hwn.**

**Bu i'r Clerc annog yr holl aelodau i fynychu hyfforddiant hyd yn oed os BYDD ond i sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol fel cyngor tref. Clerc i ddarparu gwybodaeth ar hyfforddiant a gwblhawyd cyn 2023 – bydd hyn i'w ddilyn ar e-bost.**

**<u>Cynigwyd gan y Cyng. R Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. C Jones Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi</u>**

7. **<u>Derbyn gwybodaeth bellach am ddiogelwch yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd a chymeradwyo cynlluniau'r dyfodol</u>**

**Derbyniwyd gwybodaeth a nodwyd ei bod wedi'i darllen ond fe dderbyniwyd dyfynbris newydd o £8830.53 gan CBS Conwy. Teimlwyd yn gryf bod y dyfynbris hwn yn llawer uwch na'r disgwyl ar gyfer y prosiect hwn. Erbyn hyn mae'r Cyngor Tref yn ystyried cadw'r prosiect yn fewnol gan ddefnyddio contractwr lleol. Roedd trafodaethau dwys ynghylch yr opsiynau a'r buddion. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r buddion o fod yn rhan o gynllun Conwy, felly fe ofynnwyd i'r Clerc am anfon e-bost at CBSC gyda'r ymholiadau canlynol:**

**<u>Ymholiad 1.</u> Mae angen eglurhad o'r gwaith ar y prom. Roedd y Cyngor Tref yn disgwyl y byddai'r camerâu wedi'u gosod ar y polion llifoleuadau yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd a'u cysylltu'n uniongyrchol i'r trydan yn y ffynhonnell, felly maen nhw'n ansicr pam fod angen cyflawni'r holl waith ychwanegol gyda'r polion. Nodwyd bod y problemau ar y prom gyda'r Wi-Fi yn fater i CBS Conwy fynd i'r afael ag o. Nid yw'n rhesymol i ddisgwyl inni dalu'r bil cyfan (£2410.53) am hyn, yn enwedig gan fod arian y Cyngor Tref (£3720) wedi'i dalu i osod y CCTV ar gyfer giatiau'r lanfa ac mae'r gwasanaeth hwn wedi bod ar stop yn sgil y problemau gyda'r Wi-Fi.**

**<u>Ymholiad 2.</u> Mae angen inni osod y camerâu yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd er mwyn recordio'r ymddygiad y tu mewn a'r tu allan i'r cyrtiau. Os yw'r CCTV ar bolyn ar wahân ar y prom, nid yw hyn yn bodloni'r gofynion oherwydd nid yw'r Cyngor Tref yn credu ei fod yn werth gosod y camerâu oni bai eu bod nhw ar y safle.**

**<u>Ymholiad 3.</u> Soniwyd y byddai CBSC yn gofyn am gost wedi'i rannu ar gyfer y gwaith ar y polyn Wi-Fi. Byddai'r Cyngor Tref yn disgwyl y byddai hyn yn gost wedi'i rannu gyda'r Tîm Llifogydd gan fod y gwasanaeth hwn yn fuddiol i'r tîm yn eu gwaith ac yn arbed y gost o orfod anfon aelodau o'r tîm i'r safle.**

**<u>Ymholiad 4.</u> Oes modd i'r Cyngor Tref ddefnyddio contractwr preifat i osod CCTV yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd ac yna'i gysylltu gyda systemau CBS Conwy i fod yn rhan o'r cynllun blynyddol?**

**Cytunwyd y bydd ymchwil a gwaith tuag at ddatrysiad yn parhau gyda'r tîm staff a gellir cynnal Pwyllgor Amgylcheddol. Adrodd yn ôl am y cynnydd yn y cyfarfod nesaf ar gyfer y penderfyniad terfynol.**

**<u>Cynigwyd gan y Cyng. P Vangberg Eiliwyd gan y Cyng. C Davies Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi</u>**

8. **<u>Derbyn gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a dwyn i ystyriaeth datganiad</u>**

**Roedd gwybodaeth wedi'i dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen. Estynnwyd diolch i'r Cyng. Penny Andow, Cynghorydd Sir, am ein hysbysu o'r cynnydd gan dîm CBSC. Edrychwyd ar ddau fap, ond mae angen cynnal rhagor o waith i egluro'r wybodaeth. Nodwyd angen taer am dai yn Llanfairfechan, a ni ddylid rhwystro'r datblygiad hwn yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y tai yn addas, yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bobl leol.**

**<u>Ymholiad gan breswylydd: sut mae'r wybodaeth newydd yn effeithio ar y cais tai Dwyrain Gorwel blaenorol?</u>**

**Mae'r mapiau'n dangos bod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi dileu'r safle ymgeisydd hwn rhag cael ei ystyried felly ni chaiff ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd terfynol.**

**Mae'r Cyngor Tref yn ymroi i gynorthwyo preswylwyr i leisio'u barn yn yr arolwg preswylwyr sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Medi. Bydd y Cyngor Tref yn cyflwyno datganiad ffurfiol yn dilyn cyfarfod Medi oherwydd y gobaith yw y bydd tîm Cynllun Datblygu Lleol Newydd CBS Conwy yn bresennol ar Fedi'r 10fed ar gyfer Cyfarfod y Cyngor Tref.** **<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>**

9. **Cytuno ar Lwfansau'r Cyngor Tref ar gyfer 2025/26 a'r trefniadau ar gyfer taliadau**

**Cytunwyd y caiff y lwfansau eu talu ym mis Gorffennaf fel bod blwyddyn gyfan i ddefnyddio'r lwfansau'n effeithiol.**

**Cynigwyd gan y Cyng. A Rhys Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Davies Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**10. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gwaith i atgyweirio cuddfannau Morfa Madryn**

**Derbyniwyd dyfynbris am £185.00, ac fe gytunwyd y dylid cwblhau'r gwaith hwn. Nodwyd bod yr ardal hon y tu hwnt i awdurdodaeth y Cyngor Tref, mae'r Cyngor Tref yn ei gyflawni fel arwydd o ewyllys da gan fod y preswylwyr wrth eu bodd gyda'r ardal. Clerc i e-bostio Cyngor Tref Aber i weld a ydyn nhw'n gallu helpu gydag unrhyw gostau yn y dyfodol a hefyd ein helpu i lobïo Cyngor Sir Gwynedd i ofalu am yr ardal yn fwy cynaliadwy. Codwyd pryder am y cornchwiglod gan fod yr ardal wedi gordyfu'n sylweddol, ac mae'n effeithio ar eu lles. Awgrymwyd y byddai camerâu bywyd gwyllt yn syniad da – gallan nhw gofnodi symudiadau yn yr ardal. Clerc i weithredu ac ymchwilio'r opsiwn hwn.**

**Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Jones Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**11. Derbyn a chymeradwyo Cysoniad ac Adroddiadau Ariannol Mehefin**

**Mae grant o £250 wedi'i dderbyn ar gyfer Bwyd Bendigedig i blannu coed ffrwyth yn y gymuned. Bydd y Clerc yn nôl £250 mewn arian parod i brynu'r coed. Ymholiad ynghylch coed ar gyfer parc Nant y Berllan – soniwyd bod cronfa gan Cadwch Gymru'n Daclus felly gallai hyn fod yn opsiwn.**

**Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Gorffennaf yr 2il, 2025**

**Roedd yr wybodaeth wedi'i dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei bod wedi'i darllen.**

**Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. C Jones Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**13. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio**

**0/52611 Annedd a gwaith safle cysylltiedig arfaethedig gweithwyr fferm. Tyddyn Drain, Ffordd Mount**
**Arsylwad i gydymffurfio gydag argymhellion a rheolau cynllunio y swyddog cynllunio ar gyfer llety i'r gweithwyr fferm. Cafodd cynllun ar gyfer coed ei groesawu gyda choed brodorol wedi'u ffafrio.**

**Doedd y mater hwn ddim ar yr agenda ond mae angen cyflwyno sylwadau cyn Gorffennaf yr 22ain, 0/52631, Cynnig: Tocio corun 1-2medr ar 3 choeden Dderw, tynnu 2 gonwydden ac ail-blannu 2 goeden lydanddail. Tocio corun Bedwen Arian T1-T2-T3 Derw T4 T5 Leylandii T6 Lleoliad y Fedwen Arian: Carreg Fran, Y Clos, Llanfairfechan, LL33 0AG. Roedd y rhain wedi cael eu gweld ac roedd popeth yn ymddangos mewn trefn ar gyfer maint y coed, a chroesawyd ychwanegu coed brodorol yn hytrach na leylandii. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**14. Derbyn gohebiaeth**

**1. Llyn Celanedd, Spinnies, Aberogwen awgrymu newid enw**

**Derbyniwyd e-bost gan hanesydd lleol am newid enw posibl i The Spinnies. Mae'r ardal hon y tu hwnt i'n hawdurdodaeth ni, ond mae'n bosibl anfon sylw am farn y Cyngor Tref am y mater. Yr awgrym ydy bod tystiolaeth hanesyddol ddigonol i ategu'r syniad mai Llyn Celanedd oedd enw gwreiddiol yr ardal. Bydd Ymddiriedolwyr Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT) yn dwyn y mater i ystyriaeth yn y dyfodol agos a byddan nhw'n falch iawn o dderbyn barn y bobl leol.**

**Cynhaliwyd trafodaeth lle cytunwyd cefnogi'r egwyddor o ddefnyddio enwau Cymraeg hanesyddol. Awgrymwyd y gellir eu defnyddio ar y cyd â'r enwau poblogaidd presennol i gynnig ymdeimlad o'r ardal dros y cenedlaethau. Roedd cytundeb eang i ddathlu Enwau Cymraeg hanesyddol pan fo tystiolaeth a'r Clerc i adrodd yn ôl i NWWT.**

1. **E-bost gan breswylydd yn Ffordd Penmaenmawr ynghylch baw cŵn ar y stryd – mae'r safle hon bellach wedi'i hychwanegu at y prosiect bagiau cŵn a chaiff blychau eu gosod yn yr ardal.**
2. **Blwch ffôn ym Mhendalar – Derbyniwyd gwybodaeth efallai caiff y ffonau cyhoeddus ym Mhendalar ac ar y Promenâd eu tynnu oddi yno. Mae proses ymgynghori chwe wythnos o hyd. Clerc i e-bostio gwrthwynebiadau a datgan bod y Cyngor Tref yn awyddus i'r gwasanaeth barhau.**

3. 'App' Siopa ar gyfer Neuadd Gymunedol Llanfairfechan – mae yna 'app' newydd a allai godi arian ar gyfer Neuadd Gymunedol Llanfairfechan. Nodwyd bod pwyllgor y neuadd gymunedol bellach yn berchen ar ac yn cynnal y neuadd felly mae holl ymdrechion codi arian yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol.
4. Ymholiad ynghylch Promenâd y Ffordd Goch – cadarnhawyd caiff y ffordd goch ar y Promenâd ei adfer i gerddwyr yn unig unwaith y bydd y maes parcio wedi'i gwblhau.
5. Mae treuliau banc HSBC wedi'u dileu ar gyfer busnesau bach, ac mae cerdyn debyd ar gael bellach. Fe gaiff y cerdyn ond ei ddefnyddio unwaith y bydd yr amserlen talu dau lofnod wedi'i llofnodi.
6. Strategaeth Tlodi Plant ar gyfer Cymru – Ymarfer Ymgysylltu Profiad Byw – Mae hwn yn arbennig ar gyfer gwasanaethau sy'n cydweithio gyda grwpiau penodol o bobl, felly nid yw'n bodloni ein cylch gorchwyl eang o gefnogi'r holl breswylwyr. Cytunwyd na fyddai modd inni gasglu data defnyddiol.
7. Neges gan Dŵr Cymru ynghylch arbed dŵr. Mae'r tywydd sych yn golygu gallai'r ardal wynebu amodau sychder. Gofynnwn yn garedig ichi arbed dŵr pan fo'n bosibl. Gellir adrodd am unrhyw ollyngiadau dŵr yma:
   Adrodd am broblem | Dŵr Cymru Welsh Water. Clerc i anfon dolenni ar gyfer adrodd am yr holl broblemau i'r cynghorwyr.

Penderfynwyd derbyn a nodi popeth

15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau

1. Grŵp Diogelwch Cymunedol - cau asiantaeth gefnffyrdd yr A55
Mae'r pwyllgor wedi llunio Cynllun Gweithredu i'w ddefnyddio yn y dyfodol:

| Eitem | Offer / Proses | Pobl | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Parcio ceir ar y prom | Cysylltu gyda Chyngor Conwy | Clerc / Dirprwy Glerc<br>Maer | |
| Cyfathrebu rhwng preswylydd a'r Cyngor Tref | TG / ffôn yn yr hwb | Clerc / Dirprwy Glerc | |
| Hysbysiad cyfryngau cymdeithasol safonol i'w gyflwyno | Trefnu'r hysbysiad i'w ddefnyddio pan fo'i angen | Dirprwy Glerc | |
| Dosbarthu dŵr | Cwpanau papur | Cynghorwyr Tref | |
| Gwasgodau Llachar | Holl gynghorwyr wedi'u derbyn i'w cadw adref | Cynghorwyr Tref | |
| Gwasgodau llachar x 6<br>Clipfwrdd / beiro<br>Asesiad Risg<br>Diodydd – Melysion Lucozade<br>Arian o'r blwch arian parod | Pecyn gwirfoddolwyr gydag eitemau<br>Bag cefn | Cydlynydd yr Hwb | Prynu gwasgodau o Sional |

Nodwyd bod yr heddlu wedi cynghori bod defnyddio arwyddion stop yn broblemus oherwydd gallai olygu bod y gweithgaredd yn rhan o gategori risg gwahanol. Y cyngor oedd defnyddio siacedi High Vis yn unig. Dylid estyn diolch i Eglwys yr Hôb a'r Pafiliwn am agor ar y noson i helpu gyda lluniaeth a phreswylwyr eraill wnaeth helpu ar y diwrnod. Diolch hefyd i Bwyllgor y Neuadd Gymunedol a wnaeth ganiatáu inni ddefnyddio'r neuadd fel canolfan gwybodaeth a llesiant.

2. Grŵp Ymgysylltu gyda Chleifion Meddygfa Plas Menai
Soniwyd bod nifer o apwyntiadau'n cael eu colli ar hyn o bryd – gofynnir i gleifion ofalu eu bod yn cysylltu os nad ydyn nhw'n gallu dod i'w hapwyntiad. Gofynnwyd i'r feddygfa am adfer y nodiadau atgoffa testun i helpu gyda hyn. Soniwyd unwaith yr ydych yn agor EConsult, bydd yn cadw eich lle felly os ydy'r tudalen yn aros ar agor gallwch ddychwelyd i'w gwblhau yn nes ymlaen yn y dydd. Mae'r Ymarferydd Nyrsio yn gadael, ac mae'r feddygfa yn hysbysebu am waedydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r dyraniad o feddygon yn llawn felly does dim prinder ar hyn o bryd. Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Medi.

**3. Aeth y Dirprwy Faer i Wasanaeth Dinesig Conwy ar ddydd Sul, Mehefin y 29ain Roedd yn ddigwyddiad ardderchog ac yn ddefnyddiol dros ben ar gyfer rhwydweithio gyda Chynghorau Tref eraill. Roedd hefyd yn gyfle i hysbysebu ein digwyddiadau sydd ar y gweill.**

**4, Darganfod Llanfairfechan**

**Bydd calendrau ar gael o farchnad Medi ac yn cael eu gwerthu yn y siopau lleol yn barod ar gyfer y Nadolig.**

**5. Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llanfairfechan**

**Mae disgwyl y bydd y gwaith i osod paneli solar yn cychwyn ym mis Awst ac fe ddylai ei fod wedi'i gwblhau ymhen mis. Mae gwresogyddion is-goch newydd yn cael eu gosod yn Siambr y Cyngor – mae'r rhain yn well ar gyfer yr amgylchedd ac yn llawer rhatach i'w cynnal felly byddan nhw'n help i fynd i'r afael â'r heriau tanwydd. Mae'r Cyfarfod Blynyddol ar ddydd Llun, Gorffennaf yr 21ain – mae croeso i bawb ac mae'r pwyllgor yn chwilio am bobl newydd a gwirfoddolwyr.**

**16. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**

**1. Mae Achub Bywyd yn y Môr Llanfairfechan wedi diolch i'r Cyngor Tref am y grant hael i brynu byrddau i blant i'w defnyddio yn y sesiynau. Maen nhw eisoes wedi gweld unigolion ychwanegol yn achub ar y cyfle i ddysgu'r ffordd ddiogel o nofio.**

**2. Mae mieri Cae Ffynnon wedi'u torri gan CBS Conwy – diolch am adrodd am hyn ar yr 'app' Rhoi Gwybod Conwy**

**3. Mae llwyni llwybr cerdded Pen y Bryn wedi'u tocio gan y Cyngor Tref, felly mae'r llwybr yn gliriach erbyn hyn.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:50yh**